# Rhagweld cynhyrchu pren a chynhyrchion eraill a llunio cynlluniau cynhyrchu

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â'r gweithgareddau sy'n ofynnol i ragweld cynhyrchu pren a chynhyrchion eraill a llunio cynlluniau cynhyrchu. Bydd hyn yn cynnwys asesu cnwd tebygol pren a chynhyrchion eraill a chyflwyno'r rhain mewn cynlluniau cynhyrchu tymor byr, canolig a hir.

Bydd angen i chi gymryd mesuriadau priodol a chymhwyso technegau mesur coedwig a choetir, tablau dosbarthiadau cnwd a modelau cnwd i gynhyrchion pren a chynhyrchion nad ydynt yn bren.

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, codau ymarfer, safonau'r diwydiant a chanllawiau perthnasol wrth gyflawni'r gwaith hwn.

Mae'r safon hon i'r rhai sy'n gyfrifol am lunio cynlluniau cynhyrchu ar gyfer pren a chynhyrchion eraill.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael y wybodaeth berthnasol i gyflawni'r gweithgareddau gwaith yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
2. gwirio unrhyw ofynion statudol a allai fod ar waith a all atal neu osod amodau ar y gwaith i'w gyflawni a chadarnhau bod pob caniatâd a thrwydded ofynnol wedi'i sicrhau
3. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch pobl eraill bob amser, yn unol â'r ddeddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol
4. asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r safle a'r gwaith sydd i'w gyflawni, cyn dechrau gweithio a thrwy gydol y gweithgaredd, gan wirio a chadarnhau canfyddiadau unrhyw asesiadau risg presennol
5. cadarnhau bod y cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ar gyfer y gwaith i'w gyflawni yn cael ei wisgo drwy'r amser
6. asesu'r cnwd cynaliadwy ar sail stocrestr y coetir neu'r goedwig
7. gosod y cylchred teneuo a'r dwysedd i gyflawni cnwd cynaliadwy mewn ffordd gost effeithiol a choedwrol ymarferol
8. penderfynu ar fanylebau'r pren a'r cynhyrchion eraill sydd i'w cynhyrchu
9. rhagweld cynhyrchu pren a chynhyrchion eraill yn gyson â'r data asesu sydd ar gael
10. llunio cynlluniau cynhyrchu ar gyfer pren a chynhyrchion eraill, yn unol â pholisïau sefydliadol
11. lleihau difrod i'r safle a'r ardal gyfagos, neu darfu arnynt, wrth wneud y gwaith hwn a chadarnhau bod y safle'n cael ei adael mewn cyflwr diogel a thaclus
12. cwblhau a storio'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol a gweithdrefnau sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i nodi a chael at wybodaeth sy’n berthnasol i’r gwaith gofynnol
2. sut i nodi peryglon ac asesu’r risgiau sy’n gysylltiedig â’r safle a’r gwaith i’w wneud
3. y gweithdrefnau iechyd a diogelwch a’r Systemau Gweithio Diogel perthnasol
4. y ddeddfwriaeth a’r codau ymarfer, safonau a chanllawiau’r diwydiant, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau sefydliadol, moeseg busnes a moeseg proffesiynol presennol sy’n berthnasol i’ch maes gwaith ac y mae’n rhaid i chi gadw atynt
5. dewis, defnyddio a gofalu am gyfarpar diogelu personol (PPE)
6. sut i nodi rhywogaethau coed coedwig a choetir
7. sut i ddefnyddio technegau mesur coedwig a choetir
8. sut i asesu risg y bydd gwynt yn difrodi coed a’r offer a’r technegau sydd ar gael at y diben hwn
9. sut i fesur pren sy’n sefyll
10. sut i asesu gofynion coedwrol y cnwd
11. sut i ddadansoddi ffyrdd cost effeithiol o gyflawni cnwd cynaliadwy ac effeithiau cyfuniadau o rywogaethau ar gnydau
12. dulliau a modelau nodi cnydau cynaliadwy
13. dewis model cnwd
14. egwyddorion coetir wedi’i adfywio’n naturiol
15. y ffactorau sy’n effeithio ar y penderfyniad i deneuo ai peidio ac effeithiau tan-deneuo/gor-deneuo, teneuo hwyr neu deneuo cynnar ar gnydau
16. y ffactorau sy’n effeithio ar hyd y cylchdro
17. plâu a chlefydau a sut gallant effeithio ar iechyd coed
18. y cynhyrchion a’r marchnadoedd sydd ar gael
19. sut i lunio cynlluniau cynhyrchu gyda rhagolygon realistig ar gyfer cynhyrchu pren a chynhyrchion eraill
20. manylebau cynhyrchion, gan gynnwys ansawdd, yr hyd mwyaf a lleiaf, a’r diamedrau mwyaf a lleiaf
21. sut i gynllunio ar gyfer cyfnodau cynhyrchu prysur a thawel
22. effaith bosibl y gwaith ar y safle a’r ardal gyfagos a sut gellir lleihau’r effaith hon
23. pwysigrwydd gwirio bod y gwaith sydd wedi’i gwblhau yn bodloni gofynion, yn unol â’r wybodaeth a ddarperir
24. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer cwblhau a storio dogfennaeth

## Cwmpas/Ystod

**Asesu cnydau tebygol:**

- pren
- cynhyrchion eraill

## Geirfa

Gallai **gwybodaeth** sy'n ofynnol i gyflawni gweithgareddau gwaith gynnwys:

- lluniadau
- cynlluniau
- ffotograffau/delweddau
- amserlenni
- manylebau
- datganiadau dull
- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOPs)
- cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
- gofynion y cwsmer
- gofynion sicrhau ansawdd
- safonau'r diwydiant (e.e. Safonau Prydeinig)
- cyfarwyddiadau ar lafar neu yn ysgrifenedig
- canllawiau'r diwydiant (e.e. Llawlyfr Mesur y Comisiwn Coedwigaeth)

Mae **gweithdrefnau sefydliadol** yn cyfeirio at weithdrefnau sydd wedi'u gosod gan y sefydliad sy'n eich cyflogi neu'r sefydliad rydych chi'n gwneud y gwaith ar ei ran (y cleient neu'r cwsmer

Gallai **cynhyrchion eraill** gynnwys unrhyw rai o'r canlynol: hadau a chonau, mwsogl, deiliant, gweddillion cynaeafu – mewn planhigfeydd coedwig, gall y cynhyrchion eraill gynnwys amrywiaeth o goed ifanc sydd wedi cyrraedd camau twf amrywiol, bod â gwreiddiau noeth, neu fod mewn cynwysyddion, ac ati

**System Weithio Ddiogel (SSoW)** – dyma ddull gweithio sy'n rhoi mesurau rheoli ar waith sy'n deillio o asesiad risg, er mwyn rheoli peryglon a nodwyd, a rhennir y mesurau hyn yn bedair elfen: person diogel; cyfarpar diogel; lle diogel; ac arfer diogel.

**Difrodi coed gan wynt:**
Coeden sy'n torri mewn gwynt cryf, gyda'r gwreiddiau allanol yn torri, fel bod y goeden yn cael ei dadwreiddio. Mae tri phrif ffordd o ddifrodi coed gan wynt.

LANTw36

Rhagweld cynhyrchu pren a chynhyrchion eraill a llunio cynlluniau cynhyrchu

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Ebr 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Ebr 2029 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANTw69 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Coedyddiaeth a choedwigaeth, Prysgoedio |
| **Cyfres/Set** | Gwaith coed |
| **Geiriau Allweddol** | coedwig; coetir; rhagweld; cynhyrchu; pren |